

Ffrindiau Bach a Mawr

Julia Hubery

Caroline Pedler

Llyfr
anwesu



CYMRAEG

y Lofa
Books for Wales

Diolch i wasg Gomer am eu
caniatad i gynhyrchu
deunyddiau digidol hyn



‘Dwi’n caru-caru-caru
fy siwmpwr newydd!’ canodd
Alffi’r Arth gan ddawnsio
o gwmpas y stafell.

‘Dyma’r siwmpwr orau erioed!’



‘Fe wnes i ei gwau hi’n arbennig i ti,’
gwenodd Mam, ‘â chariad
ym mhob pwyth!’



‘Waw! Diolch Mam!’
meddai Alffi.

‘Mae’n rhaid i fi ddangos i Twrch!
A Begw Bwni! A phawb!’
A bant ag e.



‘Twrch, Twrch!’
gwaeddodd Alffi.




‘O diar, does neb adre,’ ochneidiodd.
Ond beth oedd y sŵn bach gwichlyd
yna yn y llwyni?



Twrch!

‘Help!’ gwichiodd.

‘Ro’n i’n casglu mwyar duon
a dyma fi’n mynd yn sownd yn
y drain pigog ’ma!’



‘Paid â phoeni,’ meddai Alffi.
A chyda hwb a hei a ho, roedd Twrch
yn rhydd.

Ond roedd un
broblem fach.



Roedd siwmpwr newydd Alffi'n sudd
mwyar duon a thyllau drain i gyd.

'Fy siwmpwr newydd!' meddai Alffi.

'Mam wnaeth
hon i mi!'



'Paid â phoeni, Alffi,' meddai Twrch.
'Dere, allwn ni ei golchi hi'n lân yn y nant.'

Ond wrth fynd, dyma
nhw'n clywed sŵn
tynnu a thuchan
yn dod o ardd gerllaw.



‘Alffi! Help!’ gwaeddodd
Begw Bwni. ‘Mae Dad
wedi tyfu’r foronen
fwyaf erioed! Ond
mae hi’n sOWNd!’



‘Beth am i ni dynnu gyda’n gilydd ’te,’
meddai Alffi.

‘Un ... dau ... tri ...

TYNNWCH!!!’



POP!

Saethodd y foronen
allan o'r ddaear a ...






SBLAT!

Disgynnodd y
ffrindiau i ganol
y mwd.

‘Alffi, ti’n fwd i gyd!’ chwarddodd Begw.

‘O na!’ meddai Twrch. ‘Y siwmpwr
newydd sbon wnaeth dy fam i ti.’
‘Â chariad ym mhob pwyth!’
sniffiodd Alffi.



‘Alli di ddim mynd adre’n edrych fel yna,’ meddai Begw.
Felly bant â nhw ar ras tua’r nant unwaith eto.


Dyma'r ffrindiau bach yn
rhwbio ac yn sgwrio,
yn gwasgu ac
yn gwingo.



Wedyn dyma nhw'n
rhoi'r siwmpwr ar
gangen i sychu
yn yr haul.

'Mae hi braidd yn fawr,' meddai
Alffi wrth ei gwisgo unwaith
eto. 'Ti'n iawn,' meddai
Twrch. 'Falle y dylen ni fynd
adref cyn i unrhyw beth arall
ddigwydd i dy siwmpwr di.'





Ar y ffordd adref, dyma'r tri
ffrind bach yn gweld rhywbeth
yn y goeden uwchben.

'Help!' gwaeddodd Leusa'r
Llygoden. 'Chwythodd y gwynt
y barcud a fi lan fan hyn.
Mae ofn arna i!'
'Paid â phoeni, Leusa,'
gwaeddodd Alffi. 'Dwi ar
fy ffordd!'

Dringodd Alffi
i fyny'r goeden,



yn uwch ac yn uwch



a helpu Leusa i
gyrraedd y gangen.



‘Diolch yn fawr, Alffi,’ meddai Leusa.
‘Ti’n arwr! Ond mae ’nghoesau i fel jeli
nawr, ac mae’n bell iawn i’r ddaear.’
‘Dal yn sownd wrtha i,’ meddai Alffi
wrth iddo dynnu ei siwmpwr . . .



‘Wiiiiiiiiiiiiiiiiiiiiiiiiiiii!’

Disgynnodd Alffi a Leusa i lawr i’r
ddaeear yn ddiogel.


‘Hip hip hwrê! Da iawn chi!’
gwaeddodd Begw. ‘Ti’n
ddewr iawn, Alffi.’



‘Ond fy siwmpwr i –
edrychwch ar y golwg
sydd arni!’ llefodd Alffi.
‘Beth fydd dy fam yn ei
ddweud?’ ebychodd Twrch.



‘Bydd hi’n drist iawn,’ meddyliodd
Alffi, ‘fel finnau.’ A dyma fe’n
ei throi hi am adref, yn araf
fel malwoden yn ei siwmpwr
fawr, wlyb.



Roedd Alffi yn ei ddagrau wrth redeg i freichiau Mam.

‘Sori,’ meddai’n drist. ‘Dwi wedi difetha fy siwmpwr-lawn-cariad!’



‘Paid â phoeni, pwt,’ gwenodd Mam.

‘Mae Dad wedi sôn wrtha i am dy antur fawr heddiw! Rwyf ti wedi bod yn ffrind arbennig!’

‘Beth am i mi wau siwmpwr arall
yn llawn cariad i’r arth fach
orau a dewraf yn y byd?!’

